

Cofnodion Cyfarfod 3ydd Tachwedd 2020 **Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod misol i ddilyn.**

Presennol :- Y Cadeirydd **Gareth Griffiths** a'r Cynghorwyr, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Jane Pierce, R. Hefin Williams, Rhian Evans-Hill, Richard Llwyd Jones, ac Emma Chappell.
Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

Ymddiheuriadau.

Idris Thomas, Lowri Hughes ac Aled Green

Croeso

Rhodddwyd gair o groeso i bawb. Rydym fel Cyngor yn dallt, nad yw yn bosib i bawb gyfarfod yn y ffordd yma. Ond mae'r Cadeirydd yn awyddus i bawb gysylltu â'r clerc er mwyn codi materion neu os oes angen rhoi mewnbwn ychwanegol yn dilyn cyfarfodydd.

Datgan buddiant

Derbyniwyd Ffurflen o Fuddiannau i fudiadau Eraill a/neu Bersonol gan Phyllis Ellis. Atgoffwyd pawb i yrru'r ffurflen yn ôl i'r clerc mor fuan ag sydd bosib os gwelwch yn dda.

Gweddi - Rhodddwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones

Cadeirydd am y Flwyddyn 2020 - 2021

Nodwyd ein bod i ryw raddau ar ganol blwyddyn oherwydd y pandemic, ac yn sgil hynny awgrymwyd ein bod mewn amser pryderus a bod yn annoeth i ethol Cadeirydd newydd. Cynigiwyd felly fod ein cadeirydd Gareth Griffiths yn parhau yn y gadair.

Phyllis Ellis(1)

Rhian Evans-Hill (2)

Cytunodd Pawb yn Unfrydol

Gyda'r Cadeirydd Gareth Wyn Griffiths yn y Gadair, diolchodd i'r aelodau am ddangos ffydd ynddo. Dywedodd ei fod wedi mwynhau ond fod y misoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod anodd ac ar brydiau wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd oedd ddim yn hawdd i'w gwneud. Serch hynny roedd yn teimlo fod aelodau'r Cyngor wedi uno fel tîm a ffeindio'r ffordd o weithredu. Wrth symud ymlaen, nid oes dwywaith fod yna gyfnod anodd o'n blaenau ac am ddiolch am yr un gefnogaeth sydd i ddod.

Ethol Is-gadeirydd am y Flwyddyn 2020 - 2021

Eto gan ein bod ar ganol blwyddyn, penderfynwyd, mai doeth buasai aros gyda'r un cynghorydd yn is-gadeirydd. Cynigiodd Elfed Wyn Williams fod Emma Chappell yn parhau yn is-gadeirydd.

Cytunwyd yn unfrydol.

Ethol swyddogion sydd yn gyfrifol o swyddogaeth y Clerc

Cytunwyd fod y 3 presennol yn parhau i fod yn gyfrifol am swyddogaeth y Clerc sef: Phyllis Ellis, Richard Ll. Jones a Rhian Evans-Hill

I lystyried creu ac ethol swyddogion Pwyllgor Llwybrau Cyhoeddus

Nodwyd, yn dilyn y flwyddyn a haf sydd wedi mynd heibio, lle gwelwyd sawl un yn cerdded llwybrau cyhoeddus y plwyf yn ystod y cyfnod clo. Rydym yn sylweddoli fel sawl cyngor arall, cymaint o waith sydd ar ein llwybrau cyhoeddus. Yn bennaf, mae sawl llwybr heb gael ei gerdded o bosib tan lenni, ac felly angen clirio mieri a drain ac o bosib cerrig o waliau wedi disgyn. Dywedwyd fod deddf newydd yn dod i rym yn 2026, oherwydd hyn, bod rhaid rhoi trefn ar ein llwybrau cyhoeddus. Wrth gychwyn ar bwyllgor o'r fath, mae yn rhoi 6 mlynedd i ni fel Cyngor edrych a gweithredu ar y llwybrau, a sicrhau fod y mapiau llwybrau yn gywir, ac yn rhoi amser i ni edrych ar y rhestr llwybrau rydym yn gofalu amdanynt ar hyn o bryd.

Bydd **Phyllis Ellis, R. Hefin Williams, Jane Pierce ac Emma Chappell** ar yr is bwyllgor yma. Yn cyfarfod ac yn dod ac adborth yn ôl i'r Cyngor llawn.

Ethol aelodau ar Barciau a Meysydd Chwarae

Mae'r Cyngor eisoes wedi sefydlu'r pwyllgor yma llynedd. Mae'r aelodau presennol sef: **Lowri Hughes, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Rhian Evans-Hill a Gareth Griffiths** yn fodlon parhau ar yr is-bwyllgor.

I greu Unrhyw bwyllgor arall yn ôl doethineb Y Cyngor, ac i ethol swyddogion i'r pwyllgorau, os yn briodol.

Penderfynwyd fod ddigon hyblyg yn y dyfodol lle os bydd angen neu os bydd achos yn codi yna bydd ddigon rhwydd ethol swyddogion y pryd hynny.

Nodwyd hefyd os oedd rhaid i'r clerc fod yn rhan o gyfarfodydd yr is-bwyllgorau, oherwydd bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar waith ac oriau ychwanegol i'r clerc.

Penderfynwyd y byddai'r cadeirydd yn cael sgwrs neu drafodaeth anffurfiol gyda'r clerc cyn y cyfarfod nesaf.

I ethol cynrychiolydd ar Lywodraethwyr :

Mae'r swyddogion presennol yn fodlon aros nes daw eu tymor i ben.

Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi - Lowri Hughes

Ysgol Gynradd Penisa'r-waun - Phyllis Ellis

Ysgol Gynradd Bethel - Richard LL. Jones

Ysgol Gynradd Rhiwlas - Angen Cadarnhad gan y Pennaeth.

I ethol cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd Un Llais Cymru

Cytunwyd mai Rhian Evans-Hill fydd yn cynrychioli'r Cyngor eleni. Bydd y clerc yn cysylltu ag Un Llais er mwyn gyrru manylion cysylltiad Rhian.

Dyna ddiwedd Y Cyfarfod Blyneddol am eleni. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ymrwymo i'w gwaith, ac am ffurfio is-bwyllgorau yn rhwydd.

Aethpwyd ymlaen i gyfarfod arferol - mis Tachwedd

Cofnodion Cyfarfod 6ed Hydref 2020

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Phyllis Ellis (1)

Elfed Wyn Williams (2)

Materion o'r cofnodion

Llwybrau - Derbyniwyd cadarnhad o dderbyn ein llythyr gan swyddog Tramwy Cyngor Gwynedd. Bydd mwy o fanylion unwaith bydd wedi ymweld â'r Llwybrau perthnasol.

Mapiau Llwybrau - Derbyniwyd ymateb gan yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy yn nodi ei fod am edrych i mewn i'r mapio anghywir ac y buasai yn cael sgwrs gyda chyfreithiwr Y Cyngor er mwyn canfod y ffordd orau o ddatrys y mater dan sylw.

Meysydd Chwarae - Nododd y Clerc ei bod wedi cysylltu â'r Cyngor Sir I geisio cael yr adroddiadau diweddaraf ar y parciau chwarae. Hefyd mae hi wedi cysylltu â Rospa I gael amcan bris ar adroddiad ar yr holl barciau yn y plwyf. Heb gael ymateb hyd yn hyn.

Gohebiaethau a Materion Eraill

Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig - Derbyniwyd llythyr a map o'r Cyngor Sir gyda'r bwriad o gynllun i osod llinellau dwbl yn:

Allt Ddu, Dinorwig - Mae'r Cyngor yn croesawu'r cynllun yma ac yn gefnogol.

Garej Arfon (dwy ochor i'r lôn) - *Mae'r Cyngor yn croesawu hyn hefyd, ond mi ddylai'r Cyngor Sir edrych i ymestyn y llinellau dwbl ymhellach i lawr y lôn wrth y gongl a'r capel. Mae y rhan yma o'r lôn yn beryglus gyda cheir yn parcio yn wastad ar gongl troad i fyny Pentre' Helen, a cheir yn parcio is lawr ger y capel. Mae plant yn cerdded o'r ysgol ac yn croesi'r lôn er mwyn mynd i dai yng Nghlwt y Bont yno.*

Llwybrau - Derbyniwyd llythyr gan aelod o'r cyhoedd yn datgan eu bod wedi gyrru cwyn i adran Tramwy yng Nghyngor Gwynedd am giât drydan sydd wedi ei gosod ar lwybr cyhoeddus sydd yn mynd rhwng Tŷ Mawr a Hafod y Braich uwchben Deiniolen. Mae yno giât fawr a giât fach, ac mae'r ddwy yn electronig. Nid yw byth wedi cael ateb a hynny ers mis Gorffennaf. Mae'r clerc am edrych i mewn i'r mater a chysylltu â'r Cyngor Sir I weld os oes unrhyw ddatblygiad pellach ar y mater yma.

Cynllun 'Awards for All' - Derbyniwyd llythyr gan Elwyn Jones ynglŷn â 'r cynllun yma sydd yn cael ei ariannu o grant o'r gist loteri. Cynllun lle mae grwpiau o wirfoddolwyr wedi eu sefydlu mewn pentrefi i gefnogi i ddsbarthu pecynnau bwyd syml yn wythnosol. Ni fydd angen i'r Cyngor Cymuned wneud dim ond derbyn yr arian, a thalu yn fisol am y bwyd o'r arian sydd wedi ei glustnodi. Wedi trafodaeth, penderfynwyd fod yn syniad gwych a derbyn ei gais. Bydd y Cyngorydd Elwyn Jones yn gobeithio felly derbyn arian o'r gist loteri (os yn Llwyddiannus) bydd yn dosbarthu nwyddau i'r henoed dros 65 ym Mhenisa'r-waun a Rhiwlas. Pwysleisiwyd fod yn bwysig fod pawb sydd yn disgyn i'r categori yn cael y cynnig.

Cynllunio

Rynys Llanddeiniolen C20/0776/18/AC

Yn dilyn cyfarfod i drafod y cais, penderfynwyd nad oedd rheswm i wrthwynebu y cais. Fodd bynnag, nodwyd o edrych ar y cynlluniau a'r ceisiadau gwreiddiol fod yna gais cynllunio wedi ei

Basio ar yr adeilad yma, heb i'r Cyngor dderbyn cais cynllunio, ac felly methu rhoi sylwadau arno. Mae'r Cyngor yn bryderus fod nifer o geisiadau yn cael eu gwneud sydd wedi eu bod dan amodau gan Gyngor Gwynedd yn y cais gwreiddiol, ac eto yn cael eu caniatáu drwy geisiadau Newydd. Mae Cyngor Gwynedd yn mynd yn ôl ar bolisiau nhw eu hunain, ac yn rhoi cynsail i eraill.

Rydym dal yn disgwyl am esboniad o pam na chawsom dderbyn y cais a rhoi ein barn arno

nôl ym mis Mai eleni.

Lleiniau, Deiniolen C20/0790/18/LL

Penderfynwyd nad oedd gennym wrthwynebiad i'r cynllun, ond gwnaed sylwadau fod angen gwarchod y llwybr cyhoeddus sydd yn mynd heibio i'r adeilad ynghyd a'r broblem parcio sydd gan ymwelwyr ar ochor y briffordd i mewn i Ddeiniolen.

72 Caeau Gleision, Rhiwlas C20/0799/18/LL

Cais i wneud estyniad to gwastad yng nghefn yr eiddo. Nid oes gwrthwynebiad.

Rhoddion Ariannol Blynyddol

Daeth 12 cais i law eleni. Penderfynwyd rhannu fel a ganlyn:

Pêl droed leuenctid Bethel.....	£300
Clwb Snwcer Bethel.....	£100
Seindorf Arian Deiniolen.....	£300
Clwb Bowlio dan do Bethel.....	£100
Llais Ogwan.....	£75
Neuadd Gymuned Penisa'r-waun.....	£300
Neuadd Gymuned Rhiwlas.....	£300
Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd....	£500
Ysgol Feithrin Deiniolen	£300

(Bydd hyn yn dod a chyfanswm I £1000. Bydd £250 yn mynd at gyfraniad y cwota o'r pentrefi o fewn y plwyf)

Ni chafwyd cais cyflawn gan yr Ysgol Feithrin. Fodd bynnag mae'r Cyngor wedi penderfynu rhoi cyfraniad o £300 i'r cylch, cyn belled a bod y clerc yn derbyn cais a mantolen ariannol gyflawn gan y cylch.

Cais 2ail Ddiffriblydd Rhiwlas. Penderfynwyd nad oedd yn deg i gyfrannu tuag at ail ddiffriblydd oherwydd bod pob pentref arall wedi codi'r aria neu hunain i gael mwy nac 1 diffriblydd. Mae'r Cyngor Cymuned wedi cyfrannu tuag at gost un diffriblydd ym mhob pentref.

Cais Cyfeillion Rhiwlas. Penderfynwyd nad oedd y cais yma yn llwyddiannus gan mae bwriad y grŵp yw codi arian tuag at gymdeithasau o fewn y pentref.

Un cais arall a godwyd, ac sydd wedi ei roi i mewn o'r blaen yw cael hysbysfwrdd Cyngor Cymuned ym mhob pentref. Cytunwyd ein bod yn rhoi hysbysfwrdd ym mhob pentref. Gofynnwyd i'r Cyngorwyr feddwl am le addas i roi hysbysfwrdd yn eu pentrefi ar gyfer y cyfarfod nesaf.

O Gwmpas Y Bwrdd

Dim

Cadarnhau Taliadau:

520 - 840.00

521 - 69.52

522 - 300.00

523 - 100.00
524 - 300.00
525 - 300.00
526 - 100.00
527 - 75.00
528 - 300.00
529 - 300.00
530 - 300.00
531 - 1000.00
532 - 192.00

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar y 1af o Ragfyr.